# Y Pwyllgor Deisebau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 - Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 12 Gorffennaf 2011** |
| Amser: | **09:30 - 10:35** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_12_07_2011&t=0

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Powell (Cadeirydd)**<br>**Russell George**<br>**Bethan Jenkins**<br>**Joyce Watson** |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | **Naomi Stocks (Clerc)**<br>**Sarita Marshall (Dirprwy Glerc)**<br>**Helen Roberts (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.
1.2 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.
1.3 Talodd y Cadeirydd deyrnged i waith y cyn Gadeirydd, Christine Chapman, a chroesawodd Joyce Watson fel aelod newydd o'r Pwyllgor.

## 2. Deisebau newydd

2.1 **P-04-321 Gwasanaethau Trenau Arriva Cymru rhwng de-orllewin Cymru a de-ddwyrain Cymru**

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

**Camau i'w cymryd**
Cytunodd y Pwyllgor i:

- Ddisgwyl am ymateb y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau.
- Ysgrifennu at Drenau Arriva Cymru i ofyn am ei farn am y ddeiseb.
- Ysgrifennu at Passenger Focus i ofyn am ei farn am y ddeiseb.

### 2.2 **P-04-327 Cadwch Ein Hysbyty Cymuned**

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

**Camau i'w cymryd**
Cytunodd y Pwyllgor i:

- Ddisgwyl am ymateb y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol;
- Ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan i ofyn am ei farn am y ddeiseb.

### 2.3 **P-04-328 Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau: Cynigion i foderneiddio gwasanaethau gwylwyr y glannau**

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.
Datganodd Joyce Watson, William Powell a Bethan Jenkins fuddiant gan eu bod wedi cefnogi deisebau ar bynciau cysylltiedig.

**Camau i'w cymryd**
Cytunodd y Pwyllgor i:

- Ddisgwyl am ymateb y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth.
- Ysgrifennu at Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol a'r undebau llafur perthnasol eraill sydd â diddordeb yn y mater i ofyn am eu barn am y ddeiseb;
- Ysgrifennu at y cyrff twristiaeth perthnasol yn Sir Benfro i ofyn am eu barn am y ddeiseb;
- Ysgrifennu at Grŵp Morol Sir Benfro i ofyn am ei farn am y ddeiseb;
- Ysgrifennu at awdurdodau lleol Sir Benfro, Ynys Môn ac Abertawe i ofyn am eu barn am y ddeiseb;
- Ysgrifennu at Barc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro i ofyn am ei farn am y ddeiseb.

## 3. Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1 **P-03-143 Ysgol Penmaes**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

- Cytunodd y Pwyllgor i ofyn am farn y deisebwyr am y wybodaeth a gasglwyd hyn yn hyn, yn enwedig eu barn am a fydd yr arian sy'n cael ei ddarparu gan y Gweinidog yn ddigon i wella gwasanaethau gwledig.

### 3.2 **P-03-150 Safonau Canser Cenedlaethol**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**
Cytunodd y Pwyllgor i:

- Ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am faint o bobl sy'n cydymffurfio â'r Safonau Canser

Cenedlaethol ar hyn o bryd ac i ofyn pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i sicrhau y ceir cydymffurfio llawn ledled Cymru;
- Ystyried ymateb mwy cyhoeddus i ddiffyg cydymffurfio â'r Safonau Canser Cenedlaethol, yn ddibynnol ar ateb y Gweinidog, ac o gofio dyfalbarhad y Pwyllgor gyda'r ddeiseb hon;
- Ystyried gwahodd y deisebwyr i roi tystiolaeth lafar mewn cyfarfod yn y dyfodol.

3.3 **P-03-153 Celf Corff**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**
- Cytunodd y Pwyllgor i ofyn am farn y deisebwyr am yr ohebiaeth a gafwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

3.4 **P-03-156 Dal anadl wrth gysgu**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**
- Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn a oedd pawb wedi cydymffurfio â'r Cyfarwyddebau Salwch Anadlol Cronig erbyn y dyddiad olaf ar gyfer gwneud hynny, ac i ofyn am fwy o fanylion ynghylch sut y bydd cydymffurfio llawn yn arwain at welliannau mewn gwasanaethau i ymdrin â dal anadl wrth gysgu.

3.5 **P-03-170 I gynyddu nifer y bobl ag anableddau dysgu a gyflogir gan y sector cyhoeddus yng Nghymru**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**
Cytunodd y Pwyllgor i:
- Ysgrifennu at Gomisiwn y Cynulliad i ofyn a ellir hysbysu'r Pwyllgor ynghylch y penderfyniadau ar ddyfodol ei gynllun lleoliad gwaith;
- Ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a Sgiliau i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am waith y Grŵp Datblygu a Gweithredu;
- Ysgrifennu at y deisebwyr i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am eu trafodaethau gyda'r Grŵp Datblygu a Gweithredu.

3.6 **P-03-187 Diddymu'r Tollau ar ddwy Bont Hafren**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**
Cytunodd y Pwyllgor i:
- Ysgrifennu at y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau i ofyn a ellir hysbysu'r Pwyllgor pan fydd y gwaith effaith economaidd wedi'i gwblhau, pryd y bydd hynny'n debygol o ddigwydd a pha ddulliau a thechnegau mesur a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth effaith;
- Ailystyried y ddeiseb pan fydd yr astudiaeth effaith economaidd wedi'i gwblhau.

3.7 **P-03-188 Uned Gofal Arbennig i Fabanod**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

- Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb a chyhoeddi adroddiad terfynu cryno.

3.8 **P-03-204 Atebolrwydd i'r cyhoedd ac ymgynghoriadau cyhoeddus ym maes Addysg Uwch**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

- Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a Sgiliau i ofyn sut mae'r Llywodraeth yn bwriadu ymateb i argymhellion yr Arolwg ar Lywodraethiant Addysg Uwch, i nodi pryderon y deisebwyr ynghylch y diffyg ymgynghori yn y sector addysg uwch, ac i ofyn sut y bydd y Llywodraeth yn ystyried pryderon y deisebwyr wrth symud ymlaen.

3.9 **P-03-205 Cadwch Farchnad Da Byw y Fenni**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau i:

- Amlygu pryderon y deisebwyr ynghylch y broses ymgynghori ac i ofyn am sicrwydd y bydd y deisebwyr yn cymryd rhan mewn unrhyw ymgynghoriad pellach;
- Gofyn am ragor o wybodaeth am sut y bydd yr arolwg ar ddiddymu'r Deddfau Gwella yn cael ei gynnal.

3.10 **P-03-219 Fferyllfeydd yn y Barri**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

- Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am fwy o fanylion ynghylch canfyddiadau'r grŵp gorchwyl a gorffen a sut y gallai hyn fynd i'r afael yn uniongyrchol â'r materion a godwyd yn y ddeiseb hon.

3.11 **P-03-220 Gostyngwch y terfyn cyflymder ar yr A40 ger y Fenni**

3.12 **P-03-240 Diogelwch ar ffordd yr A40 yn Llanddewi Felffre**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y deisebau hyn.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

- Ysgrifennu at y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau i ofyn a gynhaliwyd yr arolygon ar derfynau cyflymder ac, os y gwnaed hynny, beth oedd y canfyddiadau, ac i bwysleisio'r angen am ateb brys i'r mater o wella diogelwch ar y ffordd.

3.13 **P-03-221 Gwell triniaeth traed drwy'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

- Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am ganfyddiadau'r ymgynghoriad ac i amlygu pryderon y deisebwyr ynghylch amseriad y broses ymgynghori.

3.14 **P-03-222 Y Gymdeithas Osteoporosis Genedlaethol**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

- Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y gwaith i ddatblygu gwasanaethau cwympo a thorri esgyrn, ac i ofyn a oes gan yr holl fyrddau iechyd lleol gynlluniau i gyflwyno Gwasanaethau Cyswllt Torri Esgyrn, neu a fydd ganddynt gynlluniau o'r fath, yn ogystal â gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am yr arolwg o'r Fframwaith Gwasanaethau Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn.

3.15 **P-03-253 Mabwysiadu carthffosydd preifat**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

- Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb a chyhoeddi adroddiad terfynu, gan fod dibenion y ddeiseb wedi cael eu bodloni.

3.16 **P-03-260 Yr Ymgyrch dros Ffurfafen Dywyll**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

- Ysgrifennu at y Gweinidog sy'n gyfrifol am drafnidiaeth, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, i nodi enghreifftiau o ddefnydd gormodol o olau stryd ac i ofyn a yw Llywodraeth Cymru'n ystyried y defnydd o oleuadau ar y stryd sy'n diffodd yn llwyr.
- Ysgrifennu at y Gweinidog sy'n gyfrifol am gynllunio, y Gweinidog Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, i ofyn am wybodaeth am faint o awdurdodau lleol sy'n mynd i'r afael â llygredd golau yn eu cynlluniau datblygu, ac i ofyn iddo ystyried mabwysiadu dull gweithredu mwy strategol i ymdrin â llygredd golau drwy gyhoeddi canllawiau ar y polisi cynllunio.
- Ysgrifennu at y Gymdeithas Frenhinol Er Atal Damweiniau i ofyn am ei barn ynghylch effaith defnyddio mathau amgen o oleuadau ar strydoedd a chefnffyrdd ar agweddau ar ddiogelwch ffordd.

3.17 **P-03-261 Atebion lleol i dagfeydd traffig yn y Drenewydd**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**
- Cytunodd y Pwyllgor i ofyn am farn y deisebwyr am yr ohebiaeth a gafwyd gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau.

3.18 **P-03-262 Academi Heddwch Cymru**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon

**Camau i'w cymryd**
- Y Clerc i ganfod a allai'r Llywydd gomisiynu gwaith ymchwil ar rôl, swyddogaeth a chwmpas posibl sefydliad o'r fath.
- Ysgrifennu at y deisebwyr i ofyn a allant gomisiynu gwaith ymchwil ar rôl, swyddogaeth a chwmpas sefydliad o'r fath.

3.19 **P-03-265 Cynnwys gwybodaeth ac addysg am adael gartref yn y Cwricwlwm Cenedlaethol - Shelter Cymru**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**
- Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb ac i gyhoeddi adroddiad terfynu.

3.20 **P-03-268 Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn Ysbyty Aneurin Bevan**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**
- Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb ac i gyhoeddi adroddiad terfynu.

3.21 **P-03-271 Ardrethi Busnes yn Arberth**

3.22 **P-03-286 - Ardrethi Busnes Ceredigion**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y deisebau hyn.

**Camau i'w cymryd**
- Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Pwyllgor Menter a Busnes i ofyn a fyddai'n ystyried y materion a godwyd yn y ddeiseb mewn ymchwiliad yn y dyfodol.

3.23 **P-03-273 Cludo tyrbini gwynt yn y Canolbarth**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**
- Cytunodd y Pwyllgor i gyfeirio'r ddeiseb i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i'w ystyried ymhellach
- Y Clerc i ganfod a yw'r cyfrifoldeb dros agweddau cludo ar ddatblygiadau ffermydd gwynt sydd dros 50MW wedi'i gadw gan Lywodraeth y DU
- Yn ddibynnol ar yr ateb, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd i ofyn am ei barn ynghylch y materion a godwyd yn y ddeiseb.

### 3.24 P-03-280 Ysbyty Brenhinol Caerdydd

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

- Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Lleol Caerdydd a'r Fro i ofyn pam na allodd y deisebwyr weld y cynlluniau ac i ofyn am sicrwydd y bydd yn ymgysylltu'n llwyr â'r gymuned yn y dyfodol.

### 3.25 P-03-283 Codi tâl gan y GIG i drin cleifion a'u cludo i'r ysbyty mewn achosion sy'n ymwneud ag alcohol

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

- Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb ac i gyhoeddi adroddiad terfynu.

### 3.26 P-03-291 Datblygu Gwasanaethau Gwybodaeth am HIV ac Iechyd Rhywiol

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

- Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb ac i gyhoeddi adroddiad terfynu.

### 3.27 P-03-296 Awgrymiadau annheg ar fenthyciadau i fyfyrwyr

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

- Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a Sgiliau i ofyn am fwy o fanylion ynghylch y cyfraddau llog amrywiol a godir ar raddedigion ar eu benthyciadau myfyrwyr ac ynghylch ehangu'r cymalau mynediad ar gyfer y sefydliadau hynny sy'n dymuno codi ffi uwch, ac i ofyn sut y bydd cynlluniau ffioedd newydd sefydliadau addysg uwch yn effeithio ar y pryderon a fynegwyd yn y ddeiseb.

### 3.28 P-03-301 Cydraddoldeb i'r Gymuned Drawsryweddol

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

- Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i nodi'r pryderon ynghylch yr oedi o ran cyfeirio cleifion i wasanaethau iechyd hunaniaeth o ran rhywedd ac i ofyn a ellid dosbarthu'r canllawiau ar bryder ynghylch rhywedd i feddygon teulu.
- Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Gymdeithas Feddygol Prydain i ofyn a oes gan feddygon teulu hyfforddiant digonol i helpu cleifion sydd o bosibl yn dioddef o bryder ynghylch rhywedd.

### 3.29 P-03-303 Yn Erbyn Bwlio Homoffobig

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

- Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y deisebwyr i'w hysbysu ynghylch yr amserlen sydd wedi'i chynllunio ar gyfer cyhoeddi canllawiau ac i ofyn am eu barn am y canllawiau ar ôl eu cyhoeddi.

3.30 **P-03-304 Gwelliant i'r Mesur ynghylch Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

- Cytunodd y Pwyllgor i ofyn am farn y deisebwyr am yr ohebiaeth a gafwyd gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau.

3.31 **P-03-305 Llyfrgelloedd Ysgol Statudol**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**
Cytunodd y Pwyllgor i:

- Ysgrifennu at y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i ofyn a fyddai'n ystyried ymchwilio ymhellach i'r mater
- Ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a Sgiliau i ofyn a fyddai'n ystyried llunio papur safbwynt newydd ar lyfrgelloedd ysgolion a chyfres o Safonau ar Lyfrgelloedd Ysgolion
- Ysgrifennu at y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth i ofyn beth fyddai goblygiadau'r ddeiseb o ran gwaith llyfrgelloedd cyhoeddus.

3.32 **P-03-307 Dylunio er mwyn arloesi yng Nghymru**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**
Cytunodd y Pwyllgor i:

- Ysgrifennu at y Pwyllgor Menter a Busnes i ofyn a fyddai'n ystyried gwneud rhagor o waith ar y materion a godwyd yn y ddeiseb.

3.33 **P-03-310 Polisiau'n sy'n Helpu i Ddiogelu Anghenion a Hawliau Disgyblion**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**
Cytunodd y Pwyllgor i:

- Ysgrifennu at y deisebwyr i ofyn am eu barn am y ddogfen sy'n ymateb i'r ymgynghoriad ac i ofyn iddynt egluro'r geiriau 'i'w gwneud yn fwy cadarn, yn gryfach ac yn haws i'r cyhoedd fod yn rhan ohoni' yn eu deiseb
- Ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a Sgiliau i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am yr ymgynghoriad ar gyfleoedd deddfu i weithredu'r newidiadau i'r broses o drefnu ysgolion ac i nodi'r meysydd y mae'r deisebwyr yn credu sy'n annigonol.

3.34 **P-03-313 Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cwn) (Cymru) 2011**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

- Cytunodd y Pwyllgor i hysbysu'r deisebwyr ynghylch y ffaith y bydd Llywodraeth Cymru'n cynnal trafodaethau â rhanddeiliaid i nodi'r pryderon ynghylch y ddeddfwriaeth ddrafft wreiddiol, gyda'r bwriad, o bosibl, o gynnwys eu hawgrymiadau mewn deddfwriaeth ddrafft newydd.

3.35 **P-03-315 Deiseb i gael croesfan newydd dros Afon Dyfi**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

- Cytunodd y Pwyllgor i ddisgwyl i'r Adroddiad Datblygu Opsiynau gael ei gyhoeddi.

3.36 **P-04-324 Dywedwch Na i Tan 8 - Mae ffermydd gwynt a llinellau pwer foltedd uchel yn difetha ein cymuned**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

- Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i ofyn a fyddai'n ystyried cynnal ymchwiliad pellach i'r materion a godir yn y ddeiseb.